

PARKINSON'S^{UK} CHANGE ATTITUDES. FIND A CURE. JOIN US.

Clefyd Parkinson a chi



About Parkinson's

Chris

Gall cael eich diagnosisio â chlefyd Parkinson fod yn brofiad emosiynol iawn. Mae rhai pobl yn teimlo'n ysgytiedig ac yn ddryslyd – mae eraill yn teimlo'n ddig neu ar bigau drain. Mae rhai pobl hyd yn oed yn teimlo'n ysgafnach eu calon i gael eglurhad ynghylch eu symptomau.

Mae'r llyfryn hwn yn anelu at ateb cwestiynau cyffredin ynglŷn â'r hyn y mae clefyd Parkinson yn ei olygu, sut y gellir trin y cyfiwr a sut y gallai effeithio ar eich bywyd pob dydd. Hefyd mae ganddo fanylion ynghylch ble y gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth a chyngor sy'n ddefnyddiol.

Pan ydych chi'n barod i ddarganfod rhagor, gallwch chi ffonio ein llinell gymorth gyfrinachol ddi-dâl*ar **0808 800 0303**. Os hoffech chi siarad â rhywun ar y llinell gymorth yn eich iaith eich hunan, gallwn ni ddarparu cyfieithydd. Ffoniwch i'w drefnu os gwelwch yn dda.

Er y gall bywyd fod yn anodd ar brydiau, mae llawer o bobl sydd â chlefyd Parkinson yn parhau i fyw bywydau sy'n weithgar a boddhaus.

*Mae galwadau'n ddi-dâl oddi wrth linellau tir a'r mwyafrif o rwydweithiau ffôn symudol.

Cynnwys

Ffeithiau cyflym	5
Ynglŷn â chlefyd Parkinson	7
Beth yw clefyd Parkinson a beth sy'n ei achosi?	7
Beth yw'r symptomau?	7
Ydy pawb yn cael y symptomau hyn	8
Sut mae clefyd Parkinson yn cael ei ddiagnosisio?	8
Pa mor gyflym ydy'r cyflwr yn cynyddu?	9
Oes iachâd?	9
All pobl farw oherwydd clefyd Parkinson?	10
Mae plant gyda fi. Ydyn nhw mewn perygl o gael clefyd Parkinson?	10
Ydy clefyd Parkinson yn heintus?	10
Faint o bobl sydd â chlefyd Parkinson?	10
Beth yw oedran pobl pan ydyn nhw'n cael clefyd Parkinson?	10
Triniaethau a therapïau	11
Sut y trinir clefyd Parkinson?	11
Pa ddewisiadau llawfeddygol sydd ar gael?	11
Pa weithwyr proffesiynol meddygol sy'n gallu fy helpu?	11
Ydy therapïau cyflenwol o les?	16
Mae cyflwr meddygol arall gyda fi heblaw clefyd Parkinson.	
Beth ddylwn i ei wneud?	16

Byw gyda clefyd Parkinson	17
Fyddda i'n gallu parhau i weithio?	17
Oes hawl gyda fi dderbyn budd-daliadau?	19
Fyddda i'n gallu gyrru o hyd?	19
Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n byw ar fy hunan?	20
Ddylwn i newid fy neiet?	21
Alla i wneud ymarferion corfforol o hyd?	22
Oes ffyrdd eraill imi wella fy symudoldeb?	23
Pa fath o offer fydd eisiau arna i efallai?	23
Materion emosiynol	25
Sut fydd fy nheulu'n cael eu heffeithio?	25
Dweud wrth eich plant am eich cyflwr	26
Sut ydw i'n dweud wrth bobl bod clefyd Parkinson gyda fi?	26
Sut fydd fy mherthnasau personol yn cael eu heffeithio?	27
Rydw i'n teimlo'n isel – oes rhywbeth y galla i ei wneud?	28
Teulu, ffrindiau a gofalwyr	33
Gwybodaeth a chefnogaeth oddi wrth glefyd Parkinson DU	35
Cysylltiadau defnyddiol	39
Fy nghysylltiadau i	40

FFEITHIAU CYFLYM

- Mae clefyd Parkinson yn gyflwr niwrolegol cynyddol, nid yn salwch angheuol.
- Rydyn ni o hyd yn ceisio deall pam mae pobl yn cael clefyd Parkinson.
- Mae un person ymhob 500 yn cael clefyd Parkinson.
- Mae'r mwyafrif o bobl sy'n cael clefyd Parkinson o'r oedran 50 neu'n uwch, ond gall pobl iau ei gael hefyd.
- Dydy clefyd Parkinson ddim yn heintus a fel arfer dydy e ddim yn rhedeg mewn teuluoedd.
- Mae profiad pawb o glefyd Parkinson yn wahanol.
- Er nad oes iachad ar hyn o bryd, mae ystod o feddyginiaethau a thriniaethau ar gael i reoli'r symptomau.

“Roedd clywed diagnosis o glefyd Parkinson yn rhyddhad mewn ffordd, o leiaf roeddwn i'n gwybod beth oedd yn bod arna i..”

Anne, a ddiagnosiwyd yn 2009



Lucas, Paul and Hattie

YNGLŶN Â CHLEFYD PARKINSON

Beth ydy clefyd Parkinson a beth sy'n ei achosi?

Mae clefyd Parkinson yn gyflwr niwrolegol cynyddol. Does dim digon o gemeg o'r enw dopamin â phobl sy'n dioddef â chlefyd Parkinson oherwydd bod rhai nerfelloedd yn eu ymennydd wedi marw. Hebdo gall pobl ddarganfod bod eu symudiadau'n mynd yn arafach, felly mae'n cymryd mwy o amser i wneud pethau.

Dydyn ni ddim yn gwybod eto pam yn union mae pobl yn cael clefyd Parkinson, ond mae ymchwilwyr yn amau mai cyfuniad o ffactorau genetig ac amgylcheddol sy'n achosi i nerfelloedd sy'n cynhyrchu dopamin farw.

Beth ydy'r symptomau?

Y symptomau sy'n gysylltiedig â chlefyd Parkinson fel arfer ydy cryndod, cyffni ac arafwch o ran symud.

Cryndod

Gall clefyd Parkinson achosi i ddwylo a chyrff rhai pobl siglo, sy'n gallu gwneud gweithgareddau pob-dydd yn anodd. Yn aml mae cryndod yn mynd yn fwy amlwg os yw rhywun sydd â chlefyd Parkinson yn bryderus neu'n gynhyrfus. Fel arfer mae'r cryndod yn bresenol ar un ochr y corf.

Dyma'r symptom o glefyd Parkinson sy'n fwyaf adnabyddus, ond nid pawb sydd â'r cyflwr fydd yn cael cryndod.

Sythder neu gyffni cyhyrol

Oherwydd bod eu cyhyrau'n anystwyth, mae rhai pobl sydd â chlefyd Parkinson yn cael problemau wrth droi o gwmpas, wrth godi o gadeiriau, wrth droi drosodd yn y gwely neu wrth wneud symudiadau main â'u bysedd megis ysgrifennu neu gao botwm.

Mae rhai pobl yn darganfod bod eu hystum yn mynd yn gefngrwm neu fod eu wyneb yn mynd yn anystwyth, sy'n golygu bod ystumiau wynebol yn fwy anodd.

Arafwch wrth symud

Gall dechrau symud fod yn fwy anodd i bobl sydd â chlefyd Parkinson. Gallan nhw ganfod ei fod yn cymryd mwy o amser i wneud pethau a maen nhw'n blino'n haws. Gall diffyg cydgysylltiad fod yn broblem hefyd.

Symptomau eraill

Heblaw anawsterau ynghylch symud, efallai bydd pobl sydd â chlefyd Parkinson yn profi symptomau megis blinder, poen, iselder ysbryd a rhwymedd. Yn aml cyfeirir at y rhain fel symptomau anysogol a gallan nhw effeithio ar fywydau pob-dydd pobl.

Ydy pawb yn profi'r symptomau hyn?

Dydy pawb sydd â chlefyd Parkinson ddim yn profi'r un cyfuniad o symptomau – maen nhw'n amrywio o berson i berson.

Hefyd, gall y ffordd mae clefyd Parkinson yn effeithio ar rywun newid o ddydd i ddydd, a hyd yn oed o awr i awr – efallai fydd symptomau sy'n amlwg ar un diwrnod ddim yn broblem ar y diwrnod nesaf.

Sut mae clefyd Parkinson yn cael ei ddiagnosisio?

Mae clefyd Parkinson yn tueddi i ddatblygu'n raddol a mae'n gallu cymryd misoedd, neu hyd



Alun

yn oed blynyddoedd, cyn bod y symptomau'n mynd yn ddigon amlwg i rywun siarad â'u meddyg.

Dydy e ddim yn hawdd i ddiagnosio'r cyflwr, felly mae'n bwysig i weld arbenigwr clefyd Parkinson i gael diagnosis cywir

Fel arfer bydd yr arbenigwr yn edrych am ddau neu fwy o'r prif symptomau o gryndod, sythder neu arafwch wrth symud.

Hefyd byddan nhw'n ystyried eich hanes meddygol a gwneud archwiliad cyn gwneud diagnosis. Gall symptomau clefyd Parkinson gael achosion eraill ac efallai y cewch eich cyfeirio i gael profion a sganiau pellach er mwyn eu diyst

Pa mor gyflym mae'r cyflwr yn cynyddu?

IMae'n anodd rhagweld pa mor gyflym y bydd clefyd Parkinson yn cynyddu, oherwydd bod y cyflwr yn wahanol i bawb. Felly bydd y symptomau mae rhywun yn profi a pha mor gyflym mae'r cyflwr yn datblygu'n amrywio o'r naill berson i'r llall.

I lawer o bobl, efallai bydd y cyflwr yn cymryd blynyddoedd i gynyddu i bwynt ble mae'n gallu achosi problemau mawr, a gellir trin llawer o'r symptomau.

“ Deng mlynedd wedi'r diagnosis, dydy pethau ddim mor ddrwg ag oeddwn I'n ofni y bidden nhw erbyn hyn. Ond rydyn ni'n poeni am y ddeng mlynedd nesaf. ”

Gofalwr â gŵr sydd â chlefyd Parkinson

Oes iachâd?

Does dim iachâd am glefyd Parkinson ar hyn o bryd, ond mae ymchwilwyr a gwyddonwyr yn cynyddu wrth ddeall y cyflwr, ei achosion a sut i'w drin orau.

Mewn gwirionedd, mae ymchwil wedi gwneud mwy o gynnydd tuag at ddarganfod iachâd yn y degawd diwethaf nag erioed o'r blaen. Hefyd mae meysydd newydd cyffrous o ymchwil wedi eu cychwyn er mwyn darganfod iachâd i glefyd Parkinson, gan gynnwys therapi genynnau a therapi celloedd bonyn.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor ynghylch yr ymchwil rydyn ni'n ei hariannu ar: parkinsons.org.uk/research

All pobl farw oherwydd clefyd Parkins

Dydy clefyd Parkinson ddim yn achosi i bobl farw'n uniongyrchol. Sut bynnag, gall rhai o'r symptomau mwy datblygedig arwain at anabledd cynyddol ac afiechyd, sy'n gallu golygu bod rhywun yn fwy agored i gael ei heintio.

Y peth pwysicach yw i geisio rheoli eich cyflwr gystal ag y gallwch chi heb gymorth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae plant gyda fi. Ydyn nhw mewn perygl o glefyd Parkinson?

Mae'n brin i gael mwy nag un person mewn teulu sydd â chlefyd Parkinson. Mae ymchwilwyr yn credu y gellir etifeddu'r cyflwr weithiau, ond mae hyn yn digwydd mewn o gwmpas 5% o achosion yn unig.

Ydy clefyd Parkinson yn heintus?

Nac ydy, ni ellir dal clefyd Parkinson fel ffluiw neu'r frech goch. Does neb yn gwybod beth sy'n ei achosi, ond mae arbenigwyr yn cytuno nad yw'n heintus.

Faint o bobl sydd â chlefyd Parkinson?

Yn fyd-eang, mae o gwmpas pedwar miliwn o bobl â chlefyd Parkinson. Yn y DU, mae o gwmpas 120,000 o bobl â'r cyflwr, a phob blwyddyn mae o gwmpas 10,000 o bobl yn cael eu diagnosisio.

Beth yw oedran pobl pan ydyn nhw'n cael clefyd Parkinson?

Mae'r perygl o ddatblygu clefyd Parkinson yn cynyddu ag oedran. Mae'r mwyafrif o bobl sy'n cael clefyd Parkinson o'r oedran 50 neu drosodd, ond gall pobl iau ei gael hefyd. Mae un mewn 20 o dan oedran 40 pan ydyn nhw'n cael eu diagnosisio.

TRINIAETHAU A THERAPIAU

Sut mae clefyd Parkinson yn cael ei drin?

Er nad oes iachâd ar hyn o bryd, mae ystod o gyffuriau, triniaethau a therapiau ar gael i reoli llawer o'r symptomau.

Fel arfer meddyginiaeth yw'r brif driniaeth am glefyd Parkinson, ond mae hyn yn amrywio o berson i berson. Mae sawl math o gyffur a ddefnyddir i drin clefyd Parkinson, a maen nhw'n gweithredu mewn ffyrdd gwahanol i leddfu rhai o'r symptomau.

I lawer o bobl sydd newydd gael eu diagnosio, gall cyffuriau clefyd Parkinson fod o gymorth mawr. Sut bynnag, os yw eich symptomau'n fwyn, efallai byddech chi'n penderfynnu, gyda'ch arbenigwr, i ohirio triniaeth â chyffuriau nes bod y symptomau'n cynyddu.

Os ydych chi'n penderfynnu cymryd meddyginiaeth neu beidio yn y camau cyntaf, mae'n bwysig i sicrhau bod eich ffordd o fyw mor iach â sy'n bosibl, gan ganolbwyntio ar ymarfer corfforol, ymlacio a deiet.

Os oes eisiau meddyginiaeth arnoch, efallai bydd rhaid ichi gymryd nifer o gyffuriau ar yr un pryd, a chyffuriau a dognau gwahanol wrth i'ch symptomau newid.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303

Pa ddewisiadau llawfeddygol sydd ar gael?

Mae ysgogi yn nwfyn yr ymennydd yn un fath o lawfeddygaeth a ddefnyddir i reoli rhai o symptomau clefyd Parkinson. Mae'n golygu pasio llifau trydanol bach trwy electrodau sydd wedi'u plannu'n barhaol yn yr ymennydd.

Dydy hwn ddim yn ddewis addas ar gyfer pawb a, fel unrhyw lawfeddygaeth, mae rhai beryglon yn gysylltiedig. Fel arfer mae'n cael ei ystyried fel dewis dim ond os yw eich symptomau'n ddifrifol a dydy meddyginiaeth ddim yn helpu bellach.

Siaradwch â'ch arbenigwr am ragor o fanylion.

Dewch o hyd i ragor: Ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303

Pa weithwyr proffesiynol sy'n gallu fy helpu?

Efallai bydd llawer o bobl yn gysylltiedig wrth eich helpu i reoli'ch cyflwr. Bydd rhai'n cael rôl sy'n fwy na'r lleill, gan ddibynnu ar eich symptomau.

Gall eich meddyg teulu, arbenigwr neu nyrs clefyd Parkinson (os oes un gyda chi) wneud atgyfeiriadau i'r gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol a restrir. Mewn rhai ardaloedd, efallai byddwch chi'n gallu hunanatgyfeirio.

Hefyd gall gwybodaeth Clefyd Parkinson DU a gweithwyr cymorth

ddarparu gwybodaeth am eich gwasanaethau lleol a dolenni iddych nhw.

Gall asesu'r ystod lawn o symptomau clefyd Parkinson fod yn anodd. Mae gan Glefyd Parkinson DU holiadur sydd ar gael i helpu i chi a'ch MT, eich arbenigwr neu eich nyrs clefyd Parkinson edrych ar eich symptomau anysgogol.

Gallwch chi lawrlwytho'r holiadur oddi wrth ein gwefan – parkinson's.org.uk – neu archebu copi oddi wrthyn ni (gweler y tu mewn i'r clawr cefn am fanylion cyswllt).

Yng nghefn y llyfryn hwn, mae lle ichi gadw manylion am yr holl weithwyr proffesiynol rydych chi'n



eu gweld. Hefyd gallwch chi fynd â hwn gyda chi i'ch penodiadau MT, arbenigwr neu nyrs clefyd Parkinson i'ch atgoffa ynghylch pa weithwyr proffesiynol yr hoffech chi gael eich atgyfeirio atyn nhw.

Gall [deietegwyr](#) eich helpu os oes gennych chi broblemau ynghylch eich deiet, er enghraifft os ydy'ch pwysau'n rhy isel neu'n rhy uchel, neu os oes gennych chi broblemau treuliadol, megis rhwymedd.

Gall [Meddygon Teulu \(MTau\)](#) eich atgyfeirio at ystod o weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n gallu eich helpu, megis arbenigwyr ysbyty, seicolegwyr a ffisiotherapyddion.

Mae'n debyg y bydd eich MT yn eich adnabod yn dda, sy'n gallu bod yn gymorth. Ond yn gyffredinol mae gan MT dim ond tri neu bedwar o gleifon sydd â chlefyd Parkinson, a dydy e ddim yn debyg y byddan nhw'n gwybod cymaint am y cyflwr ag y bydd arbenigwyr. Felly rydyn ni'n argymhell eich body n gweld arbenigwr i gael cyngor am glefyd Parkinson.

Mae [therapyddion galwedigaethol](#) yn gallu helpu pobl sydd ag anabledau i aros mor annibynnol â sy'n bosibl. Maen nhw'n asesu i ba raddau rydych chi'n gallu cynnal gweithgareddau dydd-i-ddydd gan awgrymu ffyrdd o wneud eich cartref

a'ch gweithle'n fwy diogel neu'n haws i'w rheoli. Gallan nhw eich cynghori ynghylch addasiadau, cymhorthion neu offer. Hefyd gall therapyddion galwedigaethol ddweud wrthy'ch chi am weithgareddau hamdden sy'n bleserus a sy'n gallu'ch helpu i aros yn heini.

Mae [nyrsys clefyd Parkinson](#) yn nyrsys profiedig a chofrestredig sydd wedi cyflawni cwrs arbennig ar glefyd Parkinson. Gallan nhw eich helpu i reoli'ch symptomau'n effeithiol, trwy adolygu'ch meddyginiaeth, trwy gynnig cyngor a chymorth emosïynol, a thrwy weithredu fel dolen rhwng y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig yn eich gofal.

Rydyn ni'n credu ei fod yn bwysig iawn eich bod yn cael mynediad i ofal nyrsio arbenigol. Nid pawb sy'n cael mynediad i nyrs clefyd Parkinson, felly rydyn ni'n ymgyrchu'n weithredol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

I ddarganfod a oes nyrs clefyd Parkinson yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch MT, eich arbenigwr neu'ch gweithiwr gwybodaeth a chymorth Clefyd Parkinson DU. Mae [arbenigwyr clefyd Parkinson](#) yn feddygon ysbyty, fel arfer niwrolegwyr neu arbenigwyr yn y gofal o bobl hŷn (geriatregwyr) sydd â diddordeb neilltuol ynghylch clefyd Parkinson.

Sicrhewch eich bod yn cael eich atgyfeirio at arbenigwr gan fod clefyd Parkinson yn gyflwr cymhleth sy'n anodd i'w ddiagnosio, a sy'n gallu galw am driniaeth gymhleth â chyffuriau.

Dydy pob niwrolegydd ddim yn arbenigo yng nghlefyd Parkinson, felly ceisiwch sicrhau eich bod yn cael eich atgyfeirio at un sydd yn arbenigo os oes un yn eich ardal.

Efallai byddwch chi'n canfod y bydd mynediad i weithwyr proffesiynol eraill, megis nyrsys clefyd Parkinson, therapyddion a dietegwyr, yn haws trwy arbenigwr, gan eu bod yn gweithio'n aml mewn timau â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd perthnasol eraill. Mae [gweithwyr gwybodaeth a](#)

[chymorth Clefyd Parkinson DU](#) yn darparu cymorth a gwybodaeth sy'n gyfrinachol a sydd un-i un i chi ac i'ch teulu. Gallan nhw eich arwain at wasanaethau lleol, ddarparu manylion ynghylch budd-daliadau a'ch helpu â'r broses o wneud cais. Maen nhw'n gweithredu hefyd fel llais cynorthwyol os ydych chi'n cael problemau ynghylch asesu'ch anghenion.

Gall [fferyllyddion](#) helpu ichi ddeall y feddyginiaeth a ragnodir ichi gan egluro sut i'w chymryd.

Os oes gennych unrhyw afiechydon neu gyflyrau eraill sydd angen meddyginiaeth, gall eich fferyllydd roi arweiniad ichi ynghylch sut i gymryd y rhain wrth ochr eich meddyginiaeth am glefyd Parkinson.



Laura and Sudhansu

“ Mae fy ngweithiwr gwybodaeth a chymorth lleol yn wych. Gall ceisiadau am fudd-daliadau fod yn gymhleth iawn, ond maen nhw wir wedi fy helpu drwy'r broses. ”

David, wedi'i ddiagnosis yn 2008

Hefyd gallan nhw gynghori ar ddosbarthu cymhorthion, megis amserwyr pils, gan gynnig cyngor os ydych chi'n ei gael yn anodd i agor poteli.

Mae [ffisiotherapyddion](#) yn defnyddio triniaethau corfforol, gan gynnwys ymarferion corfforol, i helpu rheoli unrhyw gyffni mewn cymalau ac i adfer cryfder yn y cyhrau a symudoldeb. Hefyd gallan nhw gynghori'ch gofalwr (os oes un gyda chi) ynghylch ffyrdd diogel i'ch helpu os ydych chi'n cael problemau wrth symud, gan awgrymu ffyrdd i osgoi syrthio. Gall gweld ffisiotherapydd wneud gwahaniaeth go iawn, a bydden ni'n argymhell eich body n gofyn am gael eich atgyfeirio.

Mae [nyrsys ymarfer](#) yn gweithio mewn ymarferion MT. Maen nhw'n

cynnal gwiriadau rheolaidd a rhedeg sesiynau cynghori. Gallan nhw fod yn ffynhonnell ddefnyddiol i gael gwybodaeth, yn arbennig ynghylch problemau iechyd cyffredinol.

Gall [seicolegwyr a chynghorwyr](#) gefnogi pobl sydd efallai angen help wrth ymgymodi â'u cyflwr. Hefyd gallan nhw eich helpu i reoli unrhyw deimladau o bryder, dymer isel neu iselder ysbryd.

Gall [gweithwyr cymdeithasol](#) gynghori ynghylch cefnogaeth yn y cartref, hawlio budd-daliadau a gofal seibiant. Hefyd maen nhw'n gyfrifol am eich asesiad gofal cymunedol ac am asesiadau gofalwyr. Cysylltwch â'ch Adran Gwasanaethau Cymdeithasol leol, neu eich Adran Gwaith Cymdeithasol os ydych chi'n byw yn Yr Alban, i gael mynediad i weithiwr cymdeithasol.

Mae [therapyddion lleferydd a iaith](#) yn weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n arbenigo ymhob agwedd ar fynegi, o fynegi wynebol a iaith y gorff i leferydd a chymhorthion mynegi. Hefyd maen nhw'n arbenigo mewn problemau llyncu. Gall therapyddion lleferydd a iaith fod yn gymorth anferth, felly rydyn ni'n argymhell eich bod yn siarad ag un cyn gynted ag y gallwch chi.

Ydy therapiau cyflenwol o fudd?

Rydyn ni'n cael llawer o ymholiadau ynglŷn â therapiau cyflenwol. Mae llawer o bobl yn canfod eu bod yn helpu ynglŷn ag ystum, ffitrwydd, ymlacio, rhyngweithio cymdeithasol a lles cyffreinol. Canfyddwyd bod therapiau ymlacio'n arbennig o gynorthwyol, gan fod pwysau'n gallu gwneud symptomau clefyd Parkinson yn waeth. Mae'r technegau a ddefnyddir yn cynnwys aciwbigo, techneg Alexander, aromatherapi, therapi celf, hydrotherapi, tyliino, therapi cerddoriaeth, adweitheg, t'ai chi a ioga.

Rydyn ni'n argymhell eich bod yn ymgynghori â'ch meddyg i gael cyngor os hoffech chi geisio therapiau cyflenwol, i ddarganfod a ydyn nhw'n addas i chi. Mae hyn yn arbennig o wir am feddyginiaethau llysiuol neu unrhyw therapi sy'n golygu cymryd fitaminau gan y gallai rhai o'r rhain ymyrryd â'r feddyginiaeth clefyd Parkinson. Hefyd mae'n bwysig i ddefnyddio therapydd cyflenwol cymwys – yn aml gall meddygfaoedd MT ddarparu rhestr o ymarferwyr lleol.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303

Mae gen i gyflwr meddygol arall yn ogystal â chlefyd Parkinson. Beth ddylwn i ei wneud?

Os oes gyflwr meddygol arall gyda chi a rydych chi'n pryderu ynghylch sut fydd hyn yn effeithio ar eich clefyd Parkinson neu i'r gwrthwyneb, siaradwch â'ch MT, eich arbenigwr neu eich nyrs clefyd Parkinson.



BYW GYDA CHLEFYD PARKINSON

Fydda i'n gallu parhau i weithio?

I bobl sydd yn gweithio llawn-amser neu'n rhan-amser, efallai bydd diagnosis o glefyd Parkinson yn achosi pryder. Mae gwaith yn ffynhonnell bwysig o incwm, ond hefyd gall adeiladu hyder, hunan-barch a bodlonrwydd personol.

Oherwydd eich bod chi wedi'ch diagnosiso â chlefyd Parkinson, dydy e ddim yn golygu bod rhaid ichi stopio gweithio. Mae llawer o bobl â'r cyflwr yn dal i weithio am flynyddoedd wedi'u diagnosis.

Os ydych chi angen neu os ydych chi'n dymuno parhau i weithio, mae'n wir bwysig i ddarganfod y driniaeth fwyaf effeithiol am eich symptomau gyda'ch arbenigwr.

Os yw gwaith yn achosi problemau ymarferol, gall therapydd galwedigaethol wneud asesiad a helpu canfod datrysiad. Y dyddiau hyn bydd llawer o fusnesau'n trefnu hyn ar eich cyfer.

“Wrth gwrs bydd fy mywyd yn newid wrth imi stopio gweithio gan fod fy swydd yn cymryd y rhan fwyaf o'm amser. Ar y llaw arall dydw i ddim eisiau stryffagligio ymlaen, gan ganfod bod pethau'n mynd yn fwyfwy anodd.”

Richard, wedi'i ddiagnosiso yn 2009

Wrth gwrs mae rhai swyddi a allai achosi problemau ichi, er enghraifft, os yw eich swydd yn gofyn am lawer o egni neu gryfder corfforol. Os mai dyma'r sefyllfa, efallai bydd angen ichi ystyried swydd amgen.

Os ydych chi'n penderfynnu stopio gweithio, mae'n bwysig i feddwl yn ofalus am yr ymhlgyiadau ariannol, emosïynol ac ymarferol.

Ein cyngor ni yw i beidio â brysio i mewn i benderfynnu – rhowch amser i'ch triniaeth sefydlogi.

Hyd yn oed os ydych chi'n hapus â'ch penderfyniad i roi'r gorau i weithio'n gynnar, mae'n werth siarad â chyflogwyr a chyrrff proffesiynol neu gyrff llafur i sefydlu'r telerau gorau ichi, a phenderfynnu pryd rydych chi eisiau ymddeol.

Wrth ystyried ymddeol, mae'n bwysig i feddwl am ffyrdd i aros yn iach ac yn weithgar. Mae rhai gwmnïau'n annog i'w gweithwyr fynychu cyrsau ar baratoi am ymddeol, a mae rhai golegau Addysg Bellach Lleol yn rhedeg cyrsau ar y testun hwn.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch eich hawliau cyflogaeth ac ynghylch dyletswyddau eich cyflogwr (os yw hyn yn berthnasol i chi).

Os oes gennych chi ragor o gwestiynau ynghylch gweithio â chlefyd Parkinson, gallwch chi gysylltu â'n llinell gymorth ar **0808 800 0303** neu e-bostiwrch **hello@parkinsons.org.uk** Hefyd gallwch chi gael cyngor a gwybodaeth oddi wrth eich Canolfan Cyngor ar Bopeth Lleol a'ch gwasanaeth budd-daliadau lles leol.



Oes gen i hawl i unrhyw fudd-daliadau?

Mae cael digon o arian i'ch cynnal eich hunan yn hanfodol ac efallai byddwch chi'n gymwys I dderbyn cymorth ariannol. Mae'r rheolau ynghylch mynediad I fudd-daliadau'n gymhleth a gallan nhw newid. I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiai cysylltwch ag:

- ein llinell gymorth ar **0808 800 0303**
- ein gweithwyr gwybodaeth a chymorth (ffoniwch ein llinell gymorth neu ymwelwch â **parkinsons.org.uk/isw**)
- eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol
- eich swyddfa fudd-daliadau leol (a geir yn y llyfr ffôn o dan 'Llywodraeth')
- asiantaethau cyngor ar fudd-daliadau
- swyddogion hawliau anabledd o'ch Adran Gwasanaethau Cymdeithasol/Gwaith Cymdeithasol

Fydda i'n gallu gyrru o hyd?

Dydy cael clefyd Parkinson ddim o angenrheidrwydd yn golygu y bydd eich trwydded gyrru'n cael ei heffeithio, a mae llawer o bobl â chlefyd Parkinson yn parhau i yrru am flynyddoedd wedi'r diagnosis.

“Oherwydd nad ydw I'n gallu sefyll yn dda, mae fy ngŵr wedi bod yn gwneud y rhan fwyaf o'r coginio a'r gwaith tŷ. Â'r arian o fudd-daliadau prynais i gymorth cerdded a nawr rydyn ni'n cael help am ddwy awr yr wythnos.”

Diana, wedi'i diagnosisio yn 2004

Eto mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch chi i hysbysu'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA) ynghylch eich diagnosis, ond mae'n syniad da i drafod gyrru gyda'ch MT neu gyda'ch arbenigwr cyn mynd at y DVLA.

Unwaith eich bod chi wedi dweud wrth y DVLA, byddan nhw'n cysylltu â'ch MT neu eich arbenigwr i gadarnhau eich ffitrwydd i yrru.

Efallai bydd angen ichi gael prawf meddygol, gymryd prawf gyrru, neu efallai y byddwch chi'n cael trwydded adnewyddadwy am un-, dwy-, neu dair blynedd.

Mae rhai bobl yn canfod bod eu meddyginiaeth yn peri iddyn nhw

deimlo'n gysglyd a felly allan nhw ddim gyrru – felly mae'n bwysig ichi ystyried hyn.

Mae unrhyw berson sy'n gyrru tra'i fod yn anghymwys yn fwriadol yn debyg o annilysu ei sicrwydd yswiriant, felly mae'n hanfodol eich bod chi'n hysbysu'ch cwmni yswiriant ynghylch unrhyw newid yn eich iechyd a allai effeithio ar eich gallu i yrru.

Mae yn erbyn y gyfraith i wneud datganiad ffug neu i guddio gwybodaeth er mwyn cael yswiriant car.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n byw ar fy hunan?

I rai bobl â chlefyd Parkinson mae

byw ar eu hunain yn bryder, ond mae llawer o bobl â'r cyflwr yn byw ar eu hunain a maen nhw'n ymdopi'n dda iawn. Un pryder cyffredin yw syrthio, ond gellir gwneud llawer i wneud y cartref yn llai peryglus, gan gynnwys y dilynol:

- Aildrefnu celfi i wneud ystafelloedd yn fwy diogel.
- Ychwanegu rheiliau gafael o gwmpas y tŷ (grisiau, bath neu gawod , er enghraifft).
- Gwneud y goleuadau'n fwy disglair i sicrhau bod symud o gwmpas yn fwy diogel.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.



Mike

Ddylwn i newid fy neiet?

Does dim newidiadau penodol sydd angen eu gwneud ond, fel pawb, byddwch chi'n elwa trwy fwyta mor iach â sy'n bosibl.

Argymhellir deiet cytbwys a maethlon sy'n cynnwys tri phryd o fwyd y dydd (neu bedwar pryd o fwyd llai). Dylech chi anelu at fwyta cymysgedd o fwydydd startshlyd (megis bara, reis, tatws, nwdls, gwrawnfwyd, cracers, ceirch, iamau) ffrwyth a llysiau, cynhyrchion llaeth, a phroteinau (cig, pysgod, wyau, ffa neu gorbys). Dylid bwyta bwydydd seimlyd a bwydydd siwgraidd yn gymedrol.

Hefyd mae'n bwysig i yfed digon o hylifau. Oni bai fod eich meddyg

Lefodopa a phrotein

Efallai y bydd nifer fach o bobl sy'n cymryd meddyginiaeth lefodopa'n canfod bod pryd o fwyd sy'n uchel o ran protein yn effeithio ar y ffordd mae eu meddyginiaeth yn gweithio. Os ydych chi'n sylwi ar hyn, rydyn ni'n argymhell eich bod yn siarad â'ch arbenigwr neu â'ch nyrs clefyd Parkinson. Hefyd mae rhai pobl yn canfod bod cymryd eu meddyginiaeth o gwmpas 30 munud cyn eu prydau bwyd yn fwy effeithiol.



Dorothy

wedi'ch cyngori i'r gwrthwyneb, dydy rhywfaint o ddiodydd alcoholig ddim yn niweidiol.

Mae llawer o bobl â chlefyd Parkinson yn mynd yn rhwym. Fel arfer bydd ymarfer corfforol, ar y cyd â maint rheolaidd o hylifau a bwydydd sy'n uchel o ran ffeibr, megis gronynnau gwrawnfwyd, bara gwenith cyflawn a phasta, reis brown, hadau, cnau, ffrwyth, llysiau a uchel o ran ffeibr, yn helpu.

Os ydych chi'n gorbwyso, efallai y bydd rhaid ichi dorri i lawr ar fwydydd seimlyd a charbohydradau. Hefyd bydd gostwng eich pwysau'n eich helpu i symud o gwmpas, gan y bydd yn lleihau'r straen ar eich cymalau.

Os, fel sy'n digwydd weithiau, ydych chi'n colli pwysau, efallai

bydd angen arolygiad dietegol arbennig ac atchwanegiadau arnoch chi. Sicrhewch eich bod yn siarad â meddyg neu â dietegydd cyn ystyried unrhyw newidiadau i'ch deiet.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Alla i wneud ymarferion corfforol o hyd?

Gallwch. Mewn gwirionedd, mae gwneud ymarferion corfforol yn arbennig o bwysig i bobl â chlefyd Parkinson. Bydd cadw'n heini'n helpu cyhyrau a chymalau rhag mynd yn anystwyth ac yn anhyblyg.

Yn ogystal â helpu â symudoldeb, gall ymarfer corfforol godi eich hwyliau. Hefyd mae'n gallu rhoi cyfle ichi gymdeithasu os ydych chi'n ymuno â grŵp ymarfer corfforol neu glwb chwaraeon lleol.

Mae llawer o bobl â chlefyd Parkinson yn cymryd rhan mewn chwaraeon bywiog, megis chwaraeon rased, bowlio, hwylio, sgïo a seiclo.

Hefyd mae nifer o ddewisiadau ymarfer corfforol 'anamlwg' i'ch cadw chi'n ystwyth ac yn fywiog, megis ioga, t'ai chi, cerdded, garddio, golf ac estyniadau dyddiol.



Tony, Nicole and Debbie

Os ydych chi'n ansicr ynghylch addasrwydd neu ddiogelwch unrhyw ymarfer y hoffech chi ei wneud, siaradwch â'ch MT neu ofynnwch am atgyfeiriad at ffisiotherapydd.

Y prif beth yw i geisio aros yn fywiog, ond i wneud pethau ar eich cyflymder eich hunan, hyd yn oed os yw'n cymryd mwy o amser na'r hyn a ddisgwylir.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Oes ffyrdd eraill y galla i wella fy symudoldeb?

Ymarfer corfforol, meddyginiaeth ac aros yn fywiog yn gyffredinol yw'r ffyrdd gorau i aros mor symudol â sy'n bosibl. Ond, yn dibynnu ar eich symptomau, mae ystod lydan o offer sydd ar gael a allai helpu hefyd.

Mae'n gallu bod yn anodd i dderbyn yr angen i ddechrau defnyddio cymhorthion, ond mae llawer o bobl yn canfod bod offer arbenigol, er enghraifft rheiliau gafael neu ffyn, yn eu helpu i fod yn fwy annibynnol.

Pa fath o offer fydd angen arna i efallai?

Mae pob math o gymhorthion ac offer bach ar gael i helpu pobl sydd efallai'n profi problemau wrth wneud pethau megis ymolchi, gymryd bath, estyn, bwyta ac yfed. Efallai y bydd angen ystyried addasiadau mwy.

Os ydych chi'n meddwl am brynu offer i'ch helpu chi o ddydd i ddydd, rydyn ni'n argymhell yn gryf eich bod yn cael asesiad oddi wrth y therapydd perthnasol yn gyntaf.

Gall ffisiotherapydd neu therapydd galwedigaethol eich cynghori ynghylch yr hyn sydd ar gael i gydfynd â'ch anghenion.

Os yw'r therapydd yn awgrymu offer, dylai e neu hi fod yn gallu'ch cynghori ar gyflenwyr ac unrhyw ariannu sydd, efallai, ar gael. Siaradwch â'ch MT am atgyfeiriadau at y gwasanaethau hyn.



MATERION EMOSIYNOL

Sut fydd fy nheulu'n cael ei effeithio?

Mae pawb yn ymdopi â bywyd mewn ffridd gwahanol, ond os yw rhywun yn y teulu'n cael ei ddiagnosisio â chlefyd Parkinson, mae'n gallu cael effaith fawr ar bawb.

Os oes pryderon neu ofidion â'r rhai hynny sy'n agos atoch chi, efallai byddan nhw'n canfod bod siarad â chynghorydd yn gallu helpu. Hefyd gallan nhw ffonio ein llinell gymorth ar **0808 800 0303** i gael gwybodaeth a chymorth.

Efallai y bydd rolau o fewn teuluoedd yn newid yn raddol wrth i'ch clefyd Parkinson gynyddu, oherwydd efallai byddwch chi eisiau mwy o help. Gall y newidiadau hyn fod yn anodd i bawb, ond efallai bydd eu trafod yn agored o fewn y teulu'n esmwytho pethau.

Efallai byddwch chi'n ei ystyried yn ddefnyddiol i ddweud wrth bobl pan ydych chi'n profi anhawster er mwyn iddyn nhw eich helpu. Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod

iddyn nhw hefyd pan nad ydych chi'n cael problemau – bydd eich teulu a'ch ffrindiau eisiau eich helpu gymaint ag y gallan nhw, ond mae'n bwysig ichi aros mor annibynnol â sy'n bosibl.

Ceisiwch ddal i wneud y pethau rydych chi wastad wedi eu mwynhau fel teulu. Cofiwch na ddylai clefyd Parkinson reoli popeth.

“ Rydyn ni'n galw 'Michael' ar fy nghlefyd Parkinson a mae wedi gweithio. Rhywsut mae ei wneud yn endid gwahanol wedi ei wneud yn haws l'm merch ddelio â fe. ”

Andrea, wedi'l diagnosis yn 2006

Dweud wrth eich plant am eich cyflwr?

Gall cael rhiant â chlefyd Parkinson fod yn anodd i rai plant neu bobl ifainc. Efallai y bydd yn gymorth iddyn nhw gael rhywun i siarad â nhw a gofyn cwestiynau iddyn nhw am glefyd Parkinson, megis MT neu nyrs clefyd Parkinson. Hefyd mae'n helpu os allan nhw gael gafael ar wybodaeth am y cyflwr yn hawdd.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Sut ydw i'n dweud wrth bobl fod clefyd Parkinson gyda fi?

Gall ddweud wrth bobl bod clefyd Parkinson gyda chi fod yn frawychus. Mae'n anodd i ddarganfod y geiriau iawn, yn arbennig os ydych chi'n poeni am y ffordd y byddan nhw'n ymateb. Efallai y byddwch chi'n poeni os fydd pobl yn gwybod bod clefyd Parkinson gyda chi, byddan nhw'n eich barnu neu eich adnabod gan yr hyn maen nhw'n gwybod neu'r hyn maen nhw'n meddwl am y cyflwr.

Chi a ddylai penderfynnu bwy ydych chi'n mynd i ddweud wrthyn nhw a beth ydych chi'n mynd i ddweud wrthyn nhw. Ond efallai y byddwch chi'n cael yr awgrymiadau dilynol yn ddefnyddiol:

“Rydw i'n credu'n gadarn mai unwaith fy mod i wedi fy nerbyn fy hunan fel person sydd â chlefyd Parkinson heb feddwl amdanaf fy hunan fel person sy'n llai o'i herwydd, wedyn bydd pobl eraill yn meddwl yn yr un ffordd. Nid dyna'r peth pwysicaf amdana i.”

Caroline, wedi'i diagnosis yn 2003

- Dywedwch wrth o leiaf un person sy'n agos ichi. Bydd hyn yn golygu bod rhywun gyda chi i siarad â nhw am eich clefyd Parkinson. Hefyd byddan nhw'n gallu'ch helpu chi wrth ddweud wrth bobl eraill.
- Dewiswch yn ofalus pryd a sut ydych chi'n dweud wrth bobl. Efallai byddwch chi eisiau casglu pawb ynghyd i ddweud wrth bawb ar unwaith, neu efallai byddwch chi eisiau dweud wrth bobl dim ond pan fydd angen. Mae rhai bobl yn ei gael yn haws i ddweud wrth bobl mewn llythyr neu fewn e-bost, yn hytrach na wyneb i wyneb.
- Ymarferwch yr hyn rydych chi eisiau ei ddweud o flaen llaw.

Paratowch eich hunan gan feddwl trwy'r ymatebion posibl y gallech chi eu cael a sut y gallech chi deimlo.

- Siaradwch â phobl sydd â chlefyd Parkinson am y ffordd maen nhw wedi dweud wrth eraill am eu cyflwr. Efallai y byddan nhw'n gallu rhoi awgrymiadau ichi. Gallwch chi geisio gysylltu â nhw trwy eich grŵp Clefyd Parkinson DU, neu ar eiñ fforwm arlein.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Sut fydd fy mherthnasau personol yn cael eu heffeithio?

Dydy cael clefyd Parkinson ddim yn golygu y byddwch chi'n profi anawsterau o angenrheidrwydd, ond weithiau gall y cyflwr gael effaith ar berthnasau personol.

Gall clefyd Parkinson ei wneud yn fwy anodd i symud yn rhydd a gwneud ystumiau byrffyr. Hefyd efallai y bydd priod neu gymar rhywiol yn ei chael yn anodd i newid o'ch cefnogi chi at fod yn bersonol o safbwynt rhywiol. Hefyd gall straen a phryderon gael effaith.

Os ydych chi'n profi rhai o'r problemau hyn, mae ffyrdd i'w



Clif and Marjorie

rheoli. Gall siarad â'ch cymar am y ffordd rydych chi'n teimlo helpu. Os yw blinder yn broblem gallech chi geisio newid yr amser o'r dydd rydych chi'n cael rhyw.

Hefyd efallai y bydd yn ddefnyddiol i drafod unrhyw broblemau â'ch arbenigwr neu â'ch nyrs clefyd Parkinson a gallan nhw eich atgyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth, megis cynghorwyr perthynas neu therapyddion seicorywiol.

Cofiwch na ddylai clefyd Parkinson rwystro bywyd rhyw sy'n bleserus ac yn foddhaus.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Rydw i'n teimlo'n isel – oes rhywbeth y galla i ei wneud?

Mae'r mwyafrif o bobl â chlefyd Parkinson yn stryffaglo â'u hemosiynau o bryd i'w gilydd. Mae'n naturiol i deimlo'n ddig neu'n bryderus – yn arbennig pan ydych chi'n cael eich diagnosiso gyntaf. Wrth i amser symud ymlaen, efallai y bydd y teimladau hyn yn gostwng, ond hefyd gallan nhw ailymddangos wrth i'ch cyflwr gynyddu.

Straen a phryderon

Os ydych chi'n teimlo bod straen arnoch chi, efallai y bydd yn helpu i siarad â'ch MT neu eich arbenigwr am eich pryderon. Efallai y byddan nhw'n esmwytho'ch meddwl trwy

gynnig gwybodaeth neu trwy eich cyfeirio at weithwyr proffesiynol sy'n gallu'ch helpu. Hefyd efallai y bydd siarad â'ch teulu a'ch ffrindiau agos yn achosi ichi deimlo'n well.

Gall pryderon neu straen achosi i symptomau waethygu. Hefyd gallan nhw ymyrryd â chwsg, gan achosi ichi deimlo'n flinedig neu'n luddedig, felly mae'n wir bwysig eich bod yn darganfod ffyrdd i ymlacio. Gall ymarfer corfforol eich helpu i ddadweindio a gwella 'ch synnwyr o les. Hefyd mae rhai pobl wedi canfod bod therapiau cyflenwol, megis aromatherapi, ioga, adweitheg a therapi cerddoriaeth a chelf wedi helpu i wella'u hwyliau a lleddfu teimladau o bryder a straen.



David

Mae'n bwysig i gael cyngor os ydych chi'n canfod bod teimladau fel pryder neu straen yn ymyrryd yn ddifrifol â'ch bywyd. Siaradwch â'ch MT, eich arbenigwr neu eich nyrs clefyd Parkinson os oes pryderon gyda chi.

Iselder ysbryd

Mae llawer o bobl â chlefyd Parkinson yn profi teimladau o iselder ysbryd rywbyrd. Hefyd mae'n ymateb ddealladwy i'r effaith mae clefyd Parkinson yn ei chael ar eich bywyd. Efallai y bydd symptomau o iselder ysbryd yn cynnwys hwyliau neu hunan-barch isel, ddiffyg diddordeb yn y pethau rydych chi'n arfer eu mwynhau, flinder ac anawsterau cysgu.

Efallai y bydd eich meddyg yn awgrymu eich bod yn cymryd gwrthisyddion, sy'n gallu bod yn effeithiol iawn cyhyd â'u bod yn gyson ag unrhyw feddyginiaeth rydych chi'n ei chymryd am glefyd Parkinson. Hefyd gall cynghori a therapi gwybyddol fod yn fuddiol. Hefyd gall ymarfer corfforol esmwytho teimladau o iselder ysbryd.

Gall fod yn anodd i deulu neu i ffrindiau agos os yw rhywun ag iselder ysbryd difrifol, yn arbennig os ydyn nhw'n ymgysylltiedig yn eu gofal. Mae'n bwysig i fod yn

“Roeddwn i'n teimlo bod fy myd wedi'i ddinistrio wedi cael fy niagnosio â chlefyd Parkinson. Er fy mod i wedi'i amau.”

Adrian, wedi'i ddiagnosio yn 2008

ymwybodol o'r symptomau ac i ddysgu ychydig mwy am y cyflwr a gall hyn wneud y sefyllfa'n haws i'w rheoli. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi wedi cael iselder ysbryd cyn cael eich diagnosio â chlefyd Parkinson.

Dewch o hyd i ragor: ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 800 0303.

Rhwystredigaeth

Os ydych chi'n cael problemau wrth symud, gall yr ymdrech ychwanegol mae'n cymryd i wneud pethau achosi ichi deimlo'n rwystredig.

Mae'n anodd i osgoi'r rwystredigaeth hon yn gyfangwbl, ond gall canfod y driniaeth a'r

cymorth orau posibl, gadw'n fywiog a dysgu sut i drefnu'ch diwrnod helpu.

Mae llawer o bobl yn gofyn: "Pam fi?" Yn anffodus does dim ateb i'r cwestiwn hwn, ond mae llawer o bobl sy'n byw â chlefyd Parkinson sydd wedi dod o hyd i ffyrdd i dderbyn y sefyllfa orau y gallan nhw gan symud ymlaen â'u bywydau.

Does dim un ffordd benodol o wneud hyn, ond efallai y gallai siarad â rhywun sy'n deall esmwytho'ch rhwystredigaeth (ac unrhyw anawsterau emosiynol eraill). Efallai y bydd hyn yn golygu ffrind agos, rywun arall â chlefyd Parkinson neu arbenigwr, megis eich nyrs clefyd Parkinson.

Cymorth emosiynol

Yn eich grŵp lleol o Glefyd Parkinson DU gallwch chi gwrdd â phobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg.

I gael rhagor o wybodaeth am eich grŵp lleol ymwelwch â **parkinsons.org.uk/localgroups**. Hefyd gallwch chi gysylltu â'n llinell gymorth ar **0808 800 0303** neu ar **hello@parkinsons.org.uk**

Hefyd gallwch chi ymuno â'n fforwm arlein er mwyn rhannu'ch profiadau a siarad â phobl eraill. Ymwelwch â **parkinsons.org.uk/forum**

“ Rydw i'n gwneud y pethau y galla i eu gwneud. Y pethau alla i ddim ... wel, gall rhywun arall eu gwneud. Peidiwch â chuddio i ffwrdd. Mae rhaid ichi ddal i fynd. Cymerwch un dydd ar y tro a gwenwch. ”

Derek, wedi'i ddiagnosis yn 2009

Aros yn gadarnhaol

I'r mwyafrif o bobl, mae clefyd Parkinson yn cael ei drin â meddyginiaeth a therapiau corfforol, ond os ydych chi'n ceisio cadw agwedd gadarnhaol, efallai y bydd hyn yn dylanwadu ar eich ymateb i driniaeth.

Efallai y bydd yn anodd ar brydiau, ond mae'n gallu helpu i fod yn gadarnhaol, i feddwl am yr hyn y gellir ei wneud yn hytrach na'r hyn na ellir ei wneud, ac i edrych ar broblemau fel heriau, yn hytrach na fel rhywbeth sy'n amhosibl.

Mae llawer o bobl â chlefyd Parkinson yn dilyn bywydau sy'n fywiog a sy'n foddhaus, nid trwy ffugio nad oes dim o'i le, ond trwy ddeall sut mae eu clefyd Parkinson

yn effeithio arnyn nhw ac yna drwy weithio o'i gwmpas.

Aros yn fywive

Hefyd mae treulio amser yn cymdeithasu'n helpu i gadw llawer o bobl yn gadarnhaol ac yn fywiog, a gall agwedd teulu a ffrindiau ddylanwadu ar hyn. Mae angen iddyn nhw eich annog chi i ddilyn bywyd sydd mor normal a mor fywiog â phosibl.

Mae dod o hyd i weithgareddau hamdden rydych chi'n eu mwynhau a chael lles oddi wrthyn nhw'n hanfodol i ddilyn bywyd iach. Mae hyn yn wir os oes clefyd Parkinson gyda chi neu os ydych chi'n gofalu am rywun â chlefyd Parkinson.

Efallai eich bod chi'n hoffi gwneud chwaraeon neu fynd i gampfa, dreulio amser ar hobïau megis dosbarthiadau celf, gymryd rhan mewn grwpiau drama neu gorau.

Hefyd mae llawer o gyfleoedd addysgiadol efallai y byddech chi'n hoffi meddwl amdany'n nhw, o grefftau, ieithoedd neu'r celfyddydau milwraidd drwodd i raddau prifysgol.

Cynghori

Efallai y bydd hyd yn oed y person mwyaf optimistaidd ac egniol ei chael yn anodd i fod yn gadarnhaol



ar unwaith ar ôl iddo gael ei ddiagnosisio. Efallai y bydd eraill sy'n tueddi i boeni yn ei chael yn anodd drwy'r amser, ond yn sicr mae'n werth ceisio dilyn yr agwedd gadarnhaol.

Os ydych chi'n cael anawsterau wrth fod yn gadarnhaol, dylech chi siarad â'ch MT am y bosibilrwydd o gynghori.



Richard and Patricia

TEULU, FFRINDIAU A GOFALWYR

Os ydych chi'n darparu cymorth i rywun â chlefyd Parkinson, weithiau fe'ch ystyrir fel ei 'ofalwr'. Dydy pawb ddim yn hoffi'r term hwn, a mae'n gallu golygu llawer o bethau. Efallai eich bod yn darparu cymorth emosynol, help ymarferol neu ofal personol i rywun am gyfnod o amser sy'n amrywio bob wythnos.

Mae'n bwysig i gydnabod y gall y modd mae'r cyflwr yn effeithio ar rywun newid o ddydd i ddydd. Meddyliwch am bryd y dylech chi adael iddo orffwys a phryd i gynnig help. Dydy'r rhain ddim yn farnau sy'n hawdd i'w gwneud, felly peidiwch â digalonni os ydych chi'n cael pethau'n anghywir weithiau. A sicrhewch eich bod yn meddwl am eich anghenion eich hunan yn ogystal ag anghenion y person rydych chi'n gofalu amdano.

Dyma rai awgrymiadau:

- Meddyliwch am eich teimladau a cheisiwch siarad amdany'n nhw â'r person rydych chi'n gofalu amdano.
- Byddwch yn glir ynghylch yr hyn rydych chi'n gallu neu rydych chi'n

fodlon ei wneud fel gofalwr i sicrhau nad oes disgwyliadau afrealistig.

- Dewch o hyd i help am y tasgau nad ydych chi'n gallu neu nad ydych chi'n fodlon eu gwneud cyn bod unrhyw anawsterau'n codi.
- Gofalwch amdanoch eich hunan, yn arbennig eich iechyd, gan gadw ychydig o amser ar gyfer eich bywyd cymdeithasol, eich hobiau a'ch diddordebau eich hunan.
- Ceisiwch i barhau i wneud y pethau mae'r ddau ohonoch chi'n mwynhau gyda'ch gilydd.
- Mae cadw'ch synnwyr digrifwch yn helpu i gadw pethau mewn persbectif.
- Fel gofalwr, efallai y bydd hawl gyda chi i gael cymorth ariannol. Ffoniwch ein llinell gymorth – **0808 800 0303** – neu Gofalwyr DU ar eu llinell gyngor – **0808 808 7777** – i gael rhagor o wybodaeth.



Diane

GWYBODAETH A CHYMORTH ODDI WRTH GLEFYD PARKINSON DU

Gall gwybod ble i ddod o hyd i atebion i'ch cwestiynau neu gael rhywun i siarad â nhw wneud byd o wahaniaeth i fywyd â chlefyd Parkinson. with Parkinson's.

Dyma'r manylion ynghylch yr holl wybodaeth a'r holl gymorth rydyn ni'n eu darparu.

Ein llinell gymorth

Mae ein nyrsys arbenigol a staff ein llinell gymorth yma i ddarparu gwybodaeth amhleidiol ynglŷn â chlefyd Parkinson, gan gynnwys cymryd meddyginiaeth, hawlio budd-daliadau a llawer mwy. A gallwch chi gysylltu â nhw os ydych chi ond eisiau siarad â rhywun am fyw â'r cyflwr.

Gall unrhyw berson a effeithir gan glefyd Parkinson ffonio neu ebostio'r llinell gymorth i gael cymorth a gwybodaeth. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol a mae galwadau'n rhad ac am ddim o linellau tir a'r mwyafrif o rwydweithiau ffonau symudol.

Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r rhai hynny nad ydyn nhw'n siarad Saesneg.

Llinell gymorth gyfrinachol sy'n rhad ac am ddim

0808 800 0303

Dydd Llun i Ddydd Gwener
9am–8pm (heblaw am wyliau'r banc), Dydd Sadwrn 10am–2pm
Trosglwyddo Testun

18001 0808 800 0303

(ar gyfer defnyddwyr ffôn testun yn unig)

Ebost hello@parkinsons.org.uk

Ein gweithwyr gwybodaeth a chymorth

Gall ein gweithwyr gwybodaeth a chymorth ddarparu gwybodaeth a chyfeirio cyfrinachol un-i un, gan gynnwys:

- gwybodaeth am, a dolenni i, wasanaethau lleol sy'n gallu'ch helpu chi
- gwybodaeth am fudd-daliadau a help â'r broses o wneud caisroces

- llais cefnogol os ydych chi angen gwneud cwyn neu os ydych chi'n cael problemau wrth gael rhywun i asesu'ch anghenion neu i gwrdd â'ch anghenion
- cymorth emosiynol i chi a'ch teulu family

Gallwch chi drefnu i weithiwr gwybodaeth a chymorth ddarparu gwybodaeth gan e-bost neu mewn llythyr, neu ffoniwch i siarad dros bethau. Hefyd gallan nhw gwrdd â chi os oes angen. Gellir trefnu gwasanaeth cyfieithu.

I gael manylion am y gweithiwr gwybodaeth a chymorth yn eich ardal chi, cysylltwch â'r linell gymorth ar **0808 800 0303** neu **hello@parkinsons.org.uk**

Hefyd gallwch ddod o hyd i ragor ar ein gwefan ar **parkinsons.org.uk/isw**

Cwrdd ag eraill sy'n byw â chlefyd Parkinson

AYn eich grŵp lleol o Glefyd Parkinson DU gallwch chi gwrdd â phobl eraill sy'n byw â chlefyd Parkinson i gael cymorth, cyfeillgarwch a gwybodaeth.

Mae llawer o grwpiau'n trefnu gweithgareddau hefyd, megis dosbarthiadau ymarfer corfforol, trafodaethau, teithiau diwrnod a dawnsio, yn ogystal â digwyddiadau i godi arian. Hefyd mae grwpiau a sefydlir yn benodol ar gyfer pobl sydd o dan yr oedran o 65.



I ddod o hyd i ragor am eich grŵp agosaf cysylltwch â'n llinell gymorth ar **0808 800 0303** neu ebostiwch **hello@parkinsons.org.uk**.
Neu ymwelwch â'n gwefan ar **parkinsons.org.uk/localgroups**

Hefyd rydyn ni'n trefnu dyddiau gwybodaeth ledled y DU. Mae'r digwyddiadau di-dâl hyn yn gyfle gwyh i gwrdd ag aelodau o'ch tîm lleol o Glefyd Parkinson DU, i ddarganfod pa gymorth sydd ar gael yn eich ardal, ac i gael gwybodaeth am fyw â chlefyd Parkinson.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch gweithiwr gwybodaeth a chymorth lleol.

Hefyd gallwch chi ddod o hyd i ragor am eich tîm lleol a'r cymorth y gallan nhw ei gynnig ar **parkinsons.org.uk/regionalteams**

Ein gwefan

Mae ein gwefan yn llawn dop â gwybodaeth am glefyd Parkinson.

Byddwch chi'n darganfod y newyddion diweddaraf, cyhoeddiadau a diweddariadau ymchwil, yn ogystal â manylion cyswllt am grwpiau cymorth yn eich ardal chi.

Ymunwch â'n fforwm trafod arlein i rannu'ch profiadau o fyw â chlefyd

Parkinson ac i siarad â phobl eraill sydd yn yr un sefyllfa. Mae croeso i bawb a effeithir gan y cyflwr ymuno, gan gynnwys aelodau'r teulu a gofalwyr.

Ymwelwch â **parkinsons.org.uk**

Hefyd gallwch chi ddod o hyd inni ar Facebook a Twitter. Ymwelwch â **www.facebook.com/parkinsonsuk**
www.twitter.com/parkinsonsuk

Adnoddau gwybodaeth

Ffordd wych arall o ddod o hyd i ragor ar fyw â chlefyd Parkinson yw trwy ein cyhoeddiadau, DVDau a thapiau clywedol.

Maen nhw'n ymdrin ag ystod o destunau, gan gynnwys symptomau, triniaethau, budd-daliadau a materion emosiynol. A gallwch chi ofyn inni am gyfieithu ein hadnoddau i ieithoedd eraill.

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiadau o'n gwefan ar **parkinsons.org.uk/publications** neu gysylltwch â ni am gatalog a ffurflen archebu ar gyfer popeth sydd ar gael.
Ffoniwch **01473 212115**
Ebostiwch **resources@parkinsons.org.uk**



Pauline

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Age UK

(gynt Age Concern a Help
the Aged)

Ymwelwch â www.ageuk.org.uk

Age UK England Advice

Ffoniwch **0800 169 6565**

Age Scotland Advice

Ffoniwch **0845 125 9732**

Age NI Advice

Ffoniwch **0808 808 7575**

Age Cymru Advice

Ffoniwch **0800 169 6565**

Carers UK

Ffoniwch **020 7378 4999**

Llinell gyngor **0808 808 7777**

Ebostiwch advice@carersuk.org

Ymwelwch â www.carersuk.org

Disability Living Foundation

Ffoniwch **020 7289 6111**

Llinell gymorth **0845 130 9177**

Ffôn testun **020 7432 8009**

Ebostiwch helpline@dlf.org.uk

Ymwelwch â www.dlf.org.uk

ATGCh

Ffoniwch **0300 790 6801**

Ffôn testun **0300 123 1278**

Ebostiwch eftd@dvla.gsi.gov.uk

Ymwelwch â www.dvla.gov.uk

Princess Royal Trust for Carers

Ymwelwch â www.carers.org

Swyddfa Llundain

Ffoniwch **0844 800 4361**

Ebostiwch info@carers.org

Swyddfa Glasgow

Ffoniwch **0141 221 5066**

Ebostiwch infoscotland@carers.org

Swyddfa'r Gogledd

Ffoniwch **01257 234 070**

Ebostiwch infochorley@carers.org

Swyddfa Cymru

Ffoniwch **02920 221788**

Ebostiwch infowales@carers.org

RELATE

Ffoniwch **0300 100 1234**

Ebostiwch enquiries@relate.org.uk

Ymwelwch â www.relate.org.uk

Fy nghysylltiadau

MT	
Arbenigwrt	
Nyrs clefyd Parkinson	
Gweithiwr Gwybodaeth a Chymorth	
Ffisiotherapydd	
Therapydd Galwedigaethol	
Therapydd Lleferydd a Iaith	
Cysylltiadau grŵp lleol Clefyd Parkinson DU	
Erail	
Mewn argyfwng cysylltwch â	

Clefyd Parkinson a chi

Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r llyfryn hwn, bydden ni wrth ein boddau i glywed oddi wrthyhych chi. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth sydd mor dda â sy'n bosibl. Bydden ni'n ddiolchgar iawn pe gallech chi lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd i:

Information Resources Team

Parkinson's UK

215 Vauxhall Bridge Road

London SW1V 1EJ

Neu gallwch chi'n ebostio ni ar publications@parkinsons.org.uk. Diolch!

Ticiwch os gwelwch yn dda...

- Mae Clefyd Parkinson gyda fi. Pryd gawsoch chi eich diagnosis?
- Rydw i'n aelod o deulu/ffrind/ofalwr rhywun sydd â Chlefyd Parkinson.
- Rydw i'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sydd â Chlefyd Parkinson.

O ble gawsoch chi'r llyfryn hwn?

Ticiwch os gwelwch yn dda...

- MT, arbenigwr neu nyrs Clefyd Parkinson
- Grŵp lleol neu ddigwyddiad Clefyd Parkinson DU
- Ein gwefan
- Gweithiwr gwybodaeth a chefnogaeth
- Wedi'i archebu oddi wrthyn ni'n uniongyrchol
- Arall

Pa mor ddefnyddiol mae'r llyfryn hwn wedi bod ichi?

(1 = ddim yn ddefnyddiol, 4 = defnyddiol iawn) 1 2 3 4

Ydy'r cyhoeddiad wedi bod yn hawdd i'w ddarllen/ei ddefnyddio? Ydy Nac ydy



Continued over the page

Pa agweddau oedd yn fwyaf cynorthwyol?

.....
.....
.....

Oeddech chi'n chwilio am unrhyw wybodaeth nad ymdrinwyd â hi?

.....
.....
.....

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

.....
.....
.....
.....

Os hoffech chi ddod yn aelod o Glefyd Parkinson DU, neu os oes diddordeb gyda chi mewn ymuno â'n Grŵp Adolygu Gwybodaeth, llenwch y manylion isod os gwelwch yn dda a byddwn ni'n cysylltu â chi.

Aelodaeth

I Grŵp Adolygu Gwybodaeth

(sy'n rhoi adborth inni ar adnoddau newydd a diweddaredig)

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

Ffôn

Ebost



Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y llyfryn hwn a'i adolygu:

Abdul Ajid, Gweithiwr Gwybodaeth a Chymorth, Clefyd Parkinson DU

Annette Hand MA, Dip HE, RCN, Ymgynghorydd Nyrs, Ymddiriedolaeth Sefydledig Gofal Iechyd Northumbria

Yr Athro K Ray Chaudhuri, Cyfarwyddwr, Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol Sefydliad Clefyd Parkinson, Ysbyty Coleg y Brenin ac Ysbyty Lewisham a Phartneriaid King's Health, Llundain

Diolch hefyd i'n grŵp adolygu gwybodaeth a phobl eraill a effeithir gan glefyd Parkinson sydd wedi darparu adborth.

A diolch i'r staff a'r cleifion yn yr Uned Glefyd Parkinson, Ysbyty Cymunedol Edgware, Llundain.

Mae Clefyd Parkinson DU yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ei wasanaethau'n darparu ffeithiau diweddar, amhleidiol a chywir. Rydyn ni'n gobeithio y bydd rhain yn ychwanegu at unrhyw gyngor proffesiynol rydych chi wedi'i gael ac ar yr un pryd rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i wneud unrhyw benderfyniadau a fydd, o bosibl, yn eich wynebu. Parhewch, os gwelwch yn dda, i siarad â'ch tîm gofal iechyd a chymdeithasol os ydych chi'n poeni am unrhyw agwedd ar fyw â chlefyd Parkinson.

Sut i archebu ein hadnoddau

Ffoniwch **01473 212115**

Ebost **resources@parkinsons.org.uk**

